

Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

363 - Beirniadaeth Gwaith Llafar i Ddysgwr BL 7, 8 a 9

Beirniad – Menna Charlton

Ychydig yn siomedig oeddwn yn darganfod mai dim ond dwy ymgais oedd yn y gystadlaeth hon. Mae'n rhaid llongyfarch y ddwy ysgol am ymdrechu ac anfon gwaith y disgyblion. Roedd un grŵp wedi anfon sgript gyda gwaith gwrando arwahan a'r llall wedi anfon fideo. Roedd aelodau'r grwpiau yn ynganu'n glir a goslefu'n briodol wrth gyflwyno. Defnyddiwyd amrywiaeth o gystrawennau a geirfa bwrpasol. Roedd elfen o hiwmor yn y cyflwyniadau hefyd. Hoffwn longyfarch y ddau grŵp ac roedd yn anodd penderfynu.

1af - Grŵp Pen y Dre

2il - Ysgol Dinas Brân